# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 4 Tachwedd 2021

Amser: 09.00 - 15.21

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://seneddhttp://www.senedd.tv/Meeting/Archive/6990e503-28ac-48cd-aadc-f5087ee34f14?autostart=True.tv/cy/12466

# O bell

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Jayne Bryant AS (Cadeirydd)<br>James Evans AS<br>Siân Gwenllian AS<br>Laura Anne Jones AS<br>Ken Skates AS<br>Buffy Williams AS<br>Sioned Williams AS (yn lle Siân Gwenllian AS) |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | Naomi Stocks (Clerc)<br>Tom Lewis-White (Ail Glerc)<br>Sarah Bartlett (Dirprwy Glerc)<br>Catherine McKeag (Swyddog)<br>Jennifer Cottle (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Božo Lugonja (Ymchwilydd)<br>Phil Boshier (Ymchwilydd) |

| | |
|---|---|
| | Sian Thomas (Ymchwilydd)<br>Michael Dauncey (Ymchwilydd)<br>Dr Paul Worthington (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

1.2 Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, dywedodd y Cadeirydd ei bod wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn amddiffyn iechyd y cyhoedd, ond bod y cyfarfod yn cael ei ddarlledu'n fyw ar www.senedd.tv.

1.3 Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau. Nododd y Cadeirydd y byddai Sioned Williams AS yn dirprwyo ar ran Siân Gwenllian AS ar gyfer eitemau 1-8.

1.4 O dan Reol Sefydlog 17.24A, datganodd Sioned Williams AS fod ei gŵr yn cael ei gyflogi gan Brifysgol Abertawe.

## 2 Papurau i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn

3.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 4 Trafod y dull o ymdrin â chyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2022 - 2023

4.1 Trafododd y Pwyllgor y dull ar gyfer craffu ar y gyllideb ddrafft.

4.2 Cytunodd yr Aelodau ar y canlynol:

- ysgrifennu at y Gweinidogion perthnasol yn gofyn am wybodaeth cyn y sesiynau tystiolaeth lafar; ac

- yn lle trefniant ffurfiol ar gyfer gweithio ar y cyd gyda'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, byddai'n rhannu unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig berthnasol â'r Pwyllgor.

## 5 Cyflwyniad i Ddeddfwriaeth

5.1 Cafodd yr Aelodau gyflwyniad gan y Clerc ar y broses ddeddfwriaethol.

## 6 Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) - papur briffio gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC)

6.1 Cafodd yr Aelodau sesiwn friffio gan Brif Weithredwr a Dirprwy Brif Weithredwr CCAUC.

## 7 Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) - papur briffio technegol gan Lywodraeth Cymru

7.1 Cafodd y Pwyllgor sesiwn friffio dechnegol ar y Bil gan swyddogion Llywodraeth Cymru.

## 8 Trafod y dull o ymdrin â'r Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru)

8.1 Trafododd y Pwyllgor ei ddull o ystyried y Bil.

8.2 Cytunodd yr Aelodau ar y canlynol:

- y cylch gorchwyl drafft;

- ei ddull o graffu yng Nghyfnod 1;
- yn amodol ar ychydig o ychwanegiadau, rhestr y rhanddeiliaid ar gyfer tystiolaeth ysgrifenedig;
- y tystion i’w gwahodd i roi tystiolaeth lafar; a
- chyfnod ymgynghori o chwe wythnos.

## 9 Sesiwn hyfforddi’r pwyllgor ar ddiogelu, wedi'i hwyluso gan yr NSPCC (rhan 2)

9.1 Cymerodd yr Aelodau ran mewn sesiwn hyfforddi ar ddiogelu.